Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Trefniadaeth a Chyfrifoldebau

Fel bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n llwyddiannus o fewn y Cynulliad, neilltuwyd y cyfrifoldebau canlynol:

1.1. Y Prif Weithredwr a'r Clerc
Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am berfformiad iechyd a diogelwch yr holl sefydliad ac mae'n atebol yn hynny o beth i Gomisiwn y Cynulliad.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

1. Baratoi a chyhoeddi datganiad polisi ar ymagwedd y Cynulliad ar iechyd a diogelwch yn y gweithle.
2. Gweithredu'r bwriadau iechyd a diogelwch a gyflwynir yn y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch.
3. Adolygu'r Datganiad Polisi a'i ail-gadarnhau'n rheolaidd.
4. Sicrhau bod gan y Cynulliad bolisïau iechyd a diogelwch addas ac effeithiol a gefnogir ar bob lefel o fewn y sefydliad.
5. Rhoi'r dasg o weithredu'r polisi iechyd a diogelwch i'r rheolwyr o fewn y meysydd maent yn gyfrifol amdanynt ac i'r graddau sy'n addas o ran lefel y risg.
6. Gosod amcanion iechyd a diogelwch y Cynulliad.
7. Sicrhau bod y materion iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu hystyried a'u trafod ar lefel y bwrdd.
8. Sicrhau y caiff y cyllid addas ac adnoddau eraill eu neilltuo i gwrdd ag ymrwymiadau'r Cynulliad o ran iechyd a diogelwch.
9. Sicrhau bod y rheolwyr uwch yn cael eu hyfforddi i fod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch.
10. Monitro iechyd a diogelwch ac adolygu perfformiad.
11. Sicrhau bod y cyflogeion yn cymryd rhan weithredol mewn gwella iechyd a diogelwch.
12. Sicrhau y cyflwynir adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol i'r Bwrdd Rheoli ac y caiff ei drafod ganddo.

1.2. Cyfarwyddwyr
Mae gan y Cyfarwyddwyr rôl bwysig o ran sicrhau bod gofynion polisïau iechyd a diogelwch y Cynulliad yn cael eu dilyn o fewn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt fel rhan gynhenid o'n diwylliant.

Dylai'r Cyfarwyddwyr sicrhau y caiff y gweithgareddau dyddiol y maent yn gyfrifol amdanynt eu cwblhau gan roi ystyriaeth lawn i arferion iechyd a diogelwch da, a'u bod yn eu gweithredu i'r safonau a ddiffinnir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am:

1. Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
2. Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodol ac yn gweithredu'r gofynion hyn yn y maes y maent yn gyfrifol amdano.

3. Sicrhau bod pob pennaeth gwasanaeth, rheolwr a chyflogai yn cael ei hyfforddi ac yn deall ei gyfrifoldebau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau iechyd a diogelwch yn gymwys.
4. Dyrannu'r adnoddau i sicrhau y gellir cwrdd â'r amcanion a'r targedau iechyd a diogelwch.
5. Ymgynghori â phenaethiaid gwasanaeth, rheolwyr a chyflogeion i sicrhau y mabwysiadir dulliau ar gyfer hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gweithle, gan drefnu y gallant gymryd rhan yn natblygiad mesurau o'r fath a chyd-weithio â rheolwyr a chyflogeion er mwyn datrys materion iechyd a diogelwch mewn modd cyfeillgar.
6. Sicrhau y caiff y trefniadau iechyd a diogelwch o fewn eu meysydd eu monitro a'u harolygu unwaith y flwyddyn o leiaf.
7. Hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd mewn materion iechyd a diogelwch a gosod esiampl bersonol dda o ran safonau iechyd a diogelwch drwy'r Cynulliad.
8. Enwebu aelod o'u staff i gydlynu'r gweithgareddau iechyd a diogelwch o fewn eu Cyfarwyddiaeth.

1.3 Penaethiaid Gwasanaeth

Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth rôl bwysig o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch a monitro eu heffeithiolrwydd. Dylai'r penaethiaid gwasanaeth fod yn ymwybodol o le y gellir gwella arferion iechyd a diogelwch a dylent argymell gwelliannau, gan ddylanwadu mewn modd positif ar ddiwylliant diogelwch y Cynulliad.

Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am:

1. Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
2. Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig ac yn diwallu'r gofynion hyn o fewn y maes y maent yn gyfrifol amdano.
3. Sicrhau yr hyfforddir pob rheolwr i ddeall ei gyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch.
4. Sicrhau yr hyfforddir cyflogeion yn ddigonol i berfformio'r tasgau sy'n ofynnol, a sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o bob perygl sy'n bodoli, yn ogystal â'r trefniadau sy'n bodoli i atal y peryglon hynny.
5. Sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac iach, a bod pob gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r rheolaethau a'r codau ymarfer statudol addas, sy'n cael eu hystyried fel y safon fwyaf sylfaenol.
6. Sicrhau bod yr holl gyfarpar gwaith sy'n angenrheidiol mewn cyflwr diogel a bod mynediad diogel bob tro i mewn ac allan o leoedd gwaith.
7. Sicrhau bod cyflogeion a'r unigolion y maent yn gyfrifol amdanynt yn ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant swydd i'w galluogi i weithio'n ddiogel.
8. Sicrhau bod pob damwain sy'n achosi niwed personol, neu salwch, neu ddamweiniau a fu bron â digwydd, yn cael eu hymchwilio; ymchwilir damweiniau mwy difrifol ar y cyd â'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch.
9. Sicrhau y cymerir camau adfer i atal damweiniau/digwyddiadau rhag digwydd eto.
10. Sicrhau bod unigolion yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau ac ymchwiliadau.
11. Cyfeirio at eu Cyfarwyddwyr unrhyw achos o dorri'r rheoliadau statudol neu arferion anniogel, nad yw'n bosibl iddynt ymdrin â hwy yn effeithiol.

1.4 Pennaeth Adnoddau Dynol

Mae gan y Pennaeth Adnoddau Dynol gyfrifoldebau penodol, yn ogystal â'i gyfrifoldebau fel Pennaeth Gwasanaeth, i sicrhau bod y system rheoli iechyd a diogelwch yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

1. Sicrhau bod y gweithdrefnau'n bodoli i archwilio a monitro i ba hyd y mae'r system rheoli iechyd a diogelwch yn cael ei gweithredu ac effeithiolrwydd y system.
2. Sicrhau y darperir rhaglen rheoli iechyd a diogelwch effeithiol yn flynyddol.
3. Sicrhau y caiff adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli a'i drafod ganddo.
4. Bod yn gadeirydd i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a sicrhau bod cyfathrebu effeithiol gydag aelodau'r Bwrdd Rheoli.
5. Sicrhau y penodir nifer ddigonol o unigolion cymwys fel sy'n angenrheidiol i roi cyngor, arweiniad a chymorth ar faterion iechyd a diogelwch i'r rheolwyr ac i staff.

1.5 Rheolwyr llinell/ Goruchwylwyr

Mae gan reolwyr llinell a goruchwylwyr ddylanwad mawr ar yr arferion gweithio diogel a weithredir o fewn y maes y maent yn gyfrifol amdano.

Mae rheolwyr llinell/ goruchwylwyr yn gyfrifol am:

1. Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodol.
2. Gweithredu'r gofynion ac amcanion polisi iechyd a diogelwch yn y maes y maent yn gyfrifol amdano.
3. Sicrhau y dilynir y gweithdrefnau iechyd a diogelwch.
4. Sicrhau bod pob cyflogai yn cael ei hyfforddi i ddeall ei gyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch.
5. Adnabod ac atal gweithgareddau anniogel yn y gweithle a chymryd camau adfer i'w hatal.
6. Sicrhau y gweithredir asesiad risg addas a digonol o'r holl weithgareddau a gynhelir yn eu meysydd gwaith a bod y mesurau rheoli o'r asesiadau risg yn cael eu gweithredu a bod y staff perthnasol yn cael eu hyfforddi.
7. Sicrhau bod y cyflogeion y maent yn gyfrifol amdanynt yn cadw safonau gwaith diogel ac yn cadw at bob rheol ddiogelwch.
8. Sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damwain ac ymchwiliadau, gan gynnwys damweiniau fu bron a digwydd, ac y caiff pob damwain/digwyddiad sy'n digwydd o fewn y maes y maent yn gyfrifol amdano ei ymchwilio'n llawn.
9. Sicrhau y cymerir camau, lle bo hynny'n angenrheidiol, i sicrhau nad yw'r damweiniau/digwyddiadau yn digwydd eto.
10. Sicrhau yr hysbysir y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch ynghylch y damweiniau/digwyddiadau mwy difrifol er mwyn diwallu'r gofynion statudol.

11. Sicrhau bod y staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael hyfforddiant cychwynnol ar iechyd a diogelwch a'r hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i weithio'n ddiogel a sicrhau y cedwir cofnod o'r hyfforddiant.
12. Sicrhau y cedwir amgylchedd diogel ac iach.
13. Cyfeirio unrhyw achos o dorri'r rheoliadau statudol neu arfer anniogel, na allant ymdrin â hwy'n effeithiol, i Benaethiaid Gwasanaeth.
14. Sicrhau bod pob cyflogai yn gwbl ymwybodol o bob gweithdrefn argyfwng.
15. Sicrhau y cedwir safonau uchel o fod yn ddarbodus ym mhob lleoliad gwaith.
16. Sicrhau nad oes rhwystrau o flaen diangfeydd tân, diffoddwyr tân a phwyntiau larwm ac y gellir agor drysau dianc yn hawdd o fewn yr adeilad.
17. Sicrhau bod pob sylwedd, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael ei gadw, ei drin, ei gario, ei ddefnyddio a'i waredu yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol.
18. Sicrhau eu bod yn cael gwared ar gyfarpar gwaith diffygiol fel na ellir ei ddefnyddio nes y caiff ei drwsio neu ei newid.
19. Ymdrin yn ddi-oed ac yn effeithiol gydag unrhyw fater iechyd a diogelwch a gyflwynir iddynt.
20. Gosod esiampl dda yn bersonol ar gyfer safonau iechyd a diogelwch.
21. Sicrhau y rhoddir digon o hyfforddiant ac amser i bersonél diogelwch, megis aseswyr cyfarpar sgrin arddangos, i wneud eu gwaith yn ddiogel, y rhestrir eu gwaith yn eu disgrifiad swydd a'i fod yn rhan o'u harolygiadau rheoli perfformiad.

1.6 Cynghorydd Iechyd a Diogelwch

Y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch fydd prif ffynhonnell y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad.

Mae'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am:

1. Gynorthwyo gyda llunio a datblygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
2. Rhoi cyngor ac awgrymu argymhellion ar asesu risg, deddfwriaeth newydd, adnabod amcanion iechyd a diogelwch a newidiadau mewn polisi a gweithdrefnau.
3. Monitro'r asesiadau risg a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau rheoli cysylltiedig a weithredir.
4. Hyrwyddo ac annog ymwybyddiaeth a hyfforddiant iechyd a diogelwch.
5. Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor iechyd a diogelwch.
6. Casglu a chyflwyno gwybodaeth ystadegol ac adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch y Cynulliad i'r rheolwyr uwch.
7. Cynorthwyo gydag ymchwilio damweiniau a digwyddiadau a'r broses statudol o gofnodi damweiniau a digwyddiadau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.
8. Cysylltu ag awdurdodau statudol ynghylch materion iechyd a diogelwch.
9. Cynghori'r rheolwyr uwch ynghylch y materion iechyd a diogelwch perthnasol ac unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu'r arferion gorau a allai effeithio ar weithgareddau'r Cynulliad.
10. Sefydlu a chadw systemau monitro ac archwilio effeithiol ac addas ar gyfer gweithredu a pherfformiad systemau rheoli iechyd a diogelwch, a lledaenu canfyddiadau'r archwiliad.
11. Rhoi cymorth i'r unigolion sydd â rolau diogelwch penodol megis yr aseswyr cyfarpar sgrin arddangos o fewn y meysydd gwasanaeth.
12. Cynnal asesiadau ar gyfer staff sy'n anabl, sydd ag anghenion arbennig, neu sy'n sâl.

13. Sicrhau y darperir cyfarpar a hyfforddiant cymorth cyntaf yn unol â'r canllawiau statudol.
14. Cynorthwyo'r Yswirwyr a benodwyd gan y Cynulliad o ran ymchwilio a gweithredu'r ceisiadau am iawndal oherwydd niwed personol neu ddifrod i eiddo personol.

1.7 Cynghorydd Iechyd Galwedigaethol

Mae'r Cynghorydd Iechyd Galwedigaethol yn gyfrifol am:

1. Reoli'r ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela lles a chymorth cyfrinachol ar gyfer staff ar y cyd â'r darparydd allanol.
2. Hybu byw'n iach ac iechyd galwedigaethol.
3. Cynnal a datblygu'r trefniadau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff.
4. Rhoi cyngor annibynnol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol ar gyfer pob cyflogai.

1.8 Rheolwr Adnoddau

Mae'r Rheolwr Adnoddau yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel a bod yr holl waith cynnal ac adeiladu yn cael ei wneud gan gontractwyr cymwys heb risg i'r unigolion y mae gweithgareddau'r Cynulliad yn effeithio arnynt na'r unigolion sy'n gwneud y gwaith.

Mae'r Rheolwr Adnoddau yn gyfrifol am sicrhau:

1. Ei fod yn ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad a'r Codau Ymarfer cysylltiedig ac yn sicrhau ei fod yn deall y gofynion penodol.
2. Bod systemau'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer dewis a rheoli contractwyr cymwys ar gyfer yr holl waith adeiladu neu'r gweithgareddau cynnal.
3. Bod trefniadau'n bodoli ar gyfer cynnal ac archwilio adeiladwaith adeiladau'r Cynulliad a gwasanaethau adeiladu a hynny mewn ffordd ddiogel.
4. Bod gweithdrefnau digonol ar gyfer gwirio cymhwysedd iechyd a diogelwch y contractwyr tra bod gwaith yn cael ei wneud.
5. Bod rheolaethau ar gael ar gyfer rheoli'r deunyddiau niweidiol a ddefnyddir, fel rhan o reoli adnoddau, gan y staff neu'r rheolwyr o fewn cylch gwaith y gwasanaeth adnoddau.
6. Y datblygir systemau a gaiff eu gweithredu i sicrhau bod unigolion yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau statudol ar gyfer:
    - Systemau trydanol sefydlog a chyfarpar cludadwy
    - Legionella
    - Cyfarpar codi a rheoliadau codi
    - Asbestos
7. Bod gweithdrefnau digonol yn bodoli er mwyn cadw'r adeiladau yn lân ac yn daclus, a'u cynnal hwy i'r safonau addas, gan gynnwys cael gwared ar wastraff.
8. Ar y cyd â'r Pennaeth Diogelwch, sicrhau bod systemau diogelwch digonol yn bodoli.
9. Bod rhagofalon tân addas a digonol yn bodoli a bod asesiadau risg tân yn cael eu gweithredu.

10. Bod trefniadau'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ar gyfer ymdrin yn effeithiol â thân, bom neu unrhyw argyfwng arall, sy'n cynnwys penodi swyddogion achosion a swyddogion tân cymwys.
11. Y cynhelir amgylchiadau gweithio amgylcheddol o dan do addas.
12. Bod y dodrefn a'r ffitiadau yn addas ac yn cwrdd â'r safonau iechyd a diogelwch.

1.9 Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch

Rôl y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch yw cynorthwyo'r Cyfarwyddwyr wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

Mae'r Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am:

1. Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn deall y gofynion.
2. Gweithredu fel "canolbwyntiau" o fewn eu hadrannau ar gyfer materion iechyd a diogelwch ee. Cyfarpar Sgrin Arddangos.
3. Darparu a chynnal rhaglen o asesu risg, cynorthwyo gyda'r asesiadau risg a chadw copïau o'r cofnodion addas.
4. Hwyluso, gweithredu a chydlynu'r dyletswyddau iechyd a diogelwch sydd eu hangen ar y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch.

1.10 Swyddog Caffael/ Staff sy'n ymwneud â'r gweithrediadau caffael

Mae'r Swyddog Caffael/ staff sy'n ymwneud â chaffael yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

1. Bod pob contract a wobrwyir ar sail telerau ac amodau contract safonol y Cynulliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod contractwyr yn cydymffurfio â'r goblygiadau statudol i wneud yn siŵr bod copi o'u datganiad iechyd a diogelwch ar gael ac i gyfleu unrhyw faterion iechyd a diogelwch i'r cleient.
2. Bod yn rhaid i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r gweithrediadau caffael, gan gynnwys tendro ar gyfer gwasanaethau neu nwyddau, sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch addas a digonol yn ymddangos mewn dogfennau i lefel sy'n cyfateb i'r risg.
3. Bod yn rhaid gofyn am dystiolaeth o gymhwysedd iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth gyda chyfraith statudol a'i gofnodi lle bo risgiau sylweddol yn bodoli.
4. Bod methiant cynigiwr i gydymffurfio â'r rheoliadau iechyd a diogelwch statudol yn ystod gweithrediadau tendro, lle mae cydymffurfio wedi ei nodi fel maen prawf gwerthuso neu brawf cyn cymhwyso, a hynny'n golygu y gallai cais gael ei ystyried yn anghymwys ac y caiff ei ddatgymhwyso oherwydd hynny.
5. Bod disgwyl i staff sy'n gyfrifol am ddynodi contractau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau gynnwys darpariaethau iechyd a diogelwch addas yn eu manylebau contract ac am geisio tystiolaeth o gymhwysedd iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth gyda'r gyfraith statudol lle mae risgiau sylweddol yn bodoli.
6. Bod methiant contractwr i gydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch tra eu bod yn darparu gwasanaethau neu nwyddau yn cael ei ystyried fel achos o ddiffyg cydymffurfio â'r contract.
7. Bod ffactorau ergonomaidd yn cael eu hystyried yn ystod y broses o nodi, brynu a darparu systemau technoleg gwybodaeth.

1.11 Cyflogeion

Mae diogelwch y cyflogeion o bwys mawr i'r Cynulliad, yn ogystal â sicrhau y caiff y gwaith ei wneud gydag ystyriaeth lawn o iechyd a diogelwch personol ac ystyriaeth o eraill.

Mae cyflogeion yn gyfrifol am:

1. Gymryd cyfrifoldeb o'u diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill y gallai eu gweithrediadau neu eu diffyg gweithredu effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd.
2. Cydweithio â'r Cynulliad i gwrdd â gofynion y gyfraith iechyd a diogelwch a'r trefniadau a nodir yn y polisi iechyd a diogelwch.
3. Peidio ag ymyrryd yn unrhyw beth a ddarperir er lles iechyd a diogelwch na'i gamddefnyddio.
4. Adrodd ynghylch diffygion o ran y cyfarpar ac amgylchiadau gweithio anniogel i'w rheolwyr, ac i'r rheolwr adnoddau fel bod camau adfer yn cael eu cymryd.
5. Cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau, os ydynt yn ysgrifenedig neu ar lafar, a roddir i sicrhau diogelwch personol a diogelwch pobl eraill.
6. Adrodd ynghylch unrhyw sefyllfa a allai greu risg difrifol neu risg posibl i'w hiechyd a diogelwch hwy neu unrhyw unigolyn tra yn y gwaith.
7. Gwisgo'n synhwyrol ac yn ddiogel ar gyfer eu hamgylchiadau gwaith penodol.
8. Ymddwyn yn gall yn y gweithle a pheidio â chwarae'n wirion.
9. Defnyddio unrhyw gyfarpar diogelwch a / neu ddillad gwarchodol fel sy'n angenrheidiol, ac adrodd ynghylch unrhyw golled neu ddiffyg i'w rheolwyr.
10. Ymgyfarwyddo â phob cyfarpar, proses, defnydd neu sylwedd nad ydynt wedi cael eu hyfforddi i'w defnyddio.
11. Dilyn pob system ddiogel o weithio ac arferion gwaith diogel.
12. Cadw eu safle gwaith yn daclus, gan gadw pob defnydd, a'u storio'n gywir a chydymffurfio ag arferion darbodaeth da.
13. Adrodd ynghylch pob damwain i'w rheolwr, os oes anaf a'i peidio.
14. Mynychu cyrsiau hyfforddi iechyd a diogelwch.
15. Ymgyfarwyddo â'r trefniadau ar gyfer cymorth cyntaf, gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau a lleoliad y pwyntiau larwm tân a'r cyfarpar argyfwng.

1.12 Cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer cyflogeion pan nad ydynt yn gweithio yn adeiladau'r Cynulliad

Mae rheolwyr a chyflogeion yn gyfrifol am:

1. Ymgyfarwyddo â rheolau a chyfarwyddiadau penodol y gwahoddwr a gyflwynir iddynt.
2. Ymddwyn yn unol ag unrhyw ddarpariaethau iechyd a diogelwch rhesymol y mae gofyn iddynt gydymffurfio â hwy, gan gynnwys y darpariaethau a gynhwysir ym Mholisi Iechyd a Diogelwch y sefydliad.
3. Eu hiechyd a diogelwch eu hunain a'r unigolion eraill y gallai eu gweithrediadau neu eu diffyg gweithredu effeithio arnynt pan nad ydynt yn gweithio yn adeiladau'r Cynulliad.
4. Gofyn am yr awdurdod gan eu rheolwr i archebu ystafell mewn llety ar gyfer unrhyw sefyllfa resymol lle byddai salwch neu flinder yn effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch neu iechyd a diogelwch unigolion eraill wrth weinyddu busnes swyddogol.

1.13 Cynrychiolwyr Diogelwch

Sicrhau cydweithrediad gyda chyflogeion o ran materion iechyd a diogelwch, ac ymgynghori â hwy; bydd y Cynulliad yn ymgynghori â chyflogeion drwy gynrychiolwyr diogelwch a achredwyd ac a benodwyd gan yr undebau llafur, gan ganiatáu unrhyw hyfforddiant sy'n rhesymol ac unrhyw adnoddau neu gymorth sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r rheini sy'n cynrychioli diogelwch cyflogeion yn gyfrifol am:

1. Wneud sylwadau ar beryglon posib a digwyddiadau peryglus a allai effeithio ar gyflogeion.
2. Gwneud sylwadau ar faterion cyffredinol sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch cyflogeion yn y gwaith.
3. Cynorthwyo gydag archwiliadau yn y gweithle.
4. Cynrychioli cyflogeion mewn ymgynghoriadau gyda swyddogion gorfodi.
5. Cynrychioli cyflogeion yn y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

2. Trefniadau Iechyd a Diogelwch

Mae'r rhan hon o'r ddogfen bolisi yn disgrifio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer gweithredu a monitro iechyd a diogelwch yn y gwaith.

2.1 Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch.

O dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, rhaid i bob rheolwr gynnal asesiad addas a digonol o'r canlynol:

- Risgiau i iechyd a diogelwch y mae staff yn agored iddynt tra yn y gwaith; a'r
- Risgiau i iechyd a diogelwch unigolion eraill y gall gweithrediadau'r staff hynny effeithio arnynt.

Mae rheoliadau iechyd a diogelwch statudol eraill yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiadau risg penodol yn cael eu cynnal, er enghraifft:

- Codi a chario
- Cyfarpar sgrin arddangos
- Sylweddau peryglus ac ati.

Dylid cynnal yr asesiadau risg penodol yn ogystal â'r asesiadau risg cyffredinol.

Cynhelir asesiadau addas a digonol i sicrhau nad oes risg o ran iechyd cyflogeion, contractwyr ac ymwelwyr, na'r rheini yr effeithir arnynt, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ymrwymo i ddarparu amgylchedd iach a diogel ar gyfer pawb sy'n gweithio yn yr adeilad ac ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i

weithredu cynllun sy'n adlewyrchu'r arferion gorau ac sy'n seiliedig ar yr egwyddorion o reoli risg a rheoli ansawdd.

Bydd yr ymagwedd hon yn:

- Mynd i'r afael â'r goblygiadau iechyd a diogelwch a holl weithgareddau'r staff;
- Adnabod peryglon ac asesu lefel y risg;
- Cael gwared ar risg lle bo hynny'n bosib;
- Lleihau effaith y risgiau hynny na ellir eu dileu.

Dylid adolygu'r asesiadau risg yn gyfnodol, er enghraifft os oes damwain, digwyddiad neu ddamwain a fu bron â digwydd, neu os prynir cyfarpar newydd neu os mae rhywun yn symud i leoliad gwaith newydd. Bydd yr adolygiad o'r asesiad risg yn seiliedig ar lefel y risg.

2.2 Polisïau a gweithdrefnau

Lle nodir bod angen, drwy ddeddfwriaeth, asesiad risg, arferion gorau, archwiliadau iechyd a diogelwch, trafodion y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch neu drwy fodd arall, bydd polisi a/neu weithdrefn Iechyd a Diogelwch yn cael ei sefydlu i osod y safon gweithredu ar gyfer y pwnc a nodir. Adolygir y polisïau a'r gweithdrefnau hyn os bydd newidiadau i ddeddfwriaeth neu pan fydd yr arferion gorau yn gwneud hynny'n ofynnol.

Mae gan y polisïau a'r gweithdrefnau'r un statws â'r ddogfen bolisi gorfforaethol.

2.3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Rhaid adnabod anghenion iechyd a diogelwch cyflogeion a chontractwyr a rhaid cynnal hyfforddiant addas a digonol, mewn ymateb i'r asesiadau a'r archwiliadau risg.

Bydd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn archwilio'r cofnodion hyfforddi i sicrhau y glynir at y gweithdrefnau.

Rhaid ystyried y wybodaeth, y gallu a'r gofynion iechyd a diogelwch cyn penodi neu symud personél i swydd newydd neu swydd wahanol, neu i leoliad gwahanol. Rhaid darparu hyfforddiant addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn a rhaid ei ddiweddaru'n gyfnodol mewn ymateb i newid.

Rhaid i drefniadau hyfforddi a chynnwys y cyrsiau fod yn addas i ddiwallu anghenion y Cynulliad, rhaid iddynt fod yn gost-effeithiol a rhaid eu cyflwyno mewn ffordd broffesiynol.

Rhaid dadansoddi swyddi er mwyn nodi anghenion hyfforddi pob cyflogai.

Cedwir cofnod o'r holl hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol y mae'r cyflogeion yn ei gael. Bydd rheolwyr llinell yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gyfredol.

Mae gofyn i'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch gadw cofnodion hyfforddiant addas (gan gynnwys e.e. enw'r cwrs hyfforddi, ei hyd, ei leoliad, enw'r darparydd ac enwau'r rhai sy'n ei fynychu)

2.4 Ymgynghori a Chyfathrebu

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwymo i ymgynghori a chyfathrebu gyda phob cyflogai ar faterion iechyd a diogelwch a chydnabod buddiannau deialog cadarnhaol sy'n cynnwys pawb. Bydd y Bwrdd Rheoli'n defnyddio pob dull sydd ar gael i ymgynghori a chyfathrebu, gan gynnwys drwy'r pwyllgor iechyd a diogelwch, y fewnrwyd, posteri, byrddau hysbysebu ac e-bost.

Bydd y Bwrdd Rheoli'n ymgynghori a chyfathrebu gyda chyflogeion yn uniongyrchol a chyda chynrychiolwyr diogelwch. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cwrdd yn rheolaidd i hyrwyddo a datblygu diwylliant diogelwch positif drwy ymgynghori ac ymwneud effeithiol.

Bydd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn trefnu cyfarfodydd y pwyllgor diogelwch, ac yn sicrhau y darperir agendâu a chofnodion yn unol â'r gweithdrefnau hyn. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cael eu dewis ar sail wirfoddol mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, cynrychiolwyr yr undebau llafur a chyflogeion. Cyn belled a'i bod yn bosib, bydd sbectrwm eang o staff o bob rhan o'r sefydliad yn aelodau o'r pwyllgor, i sicrhau bod ymgynghori effeithiol gyda'r staff a bod yr holl staff yn cael eu cynrychioli.

Bydd disgwyl i aelodau'r pwyllgor osod safon uchel o ran iechyd a diogelwch, o fewn eu meysydd penodol, ac i arwain drwy esiampl ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Neilltuir pob adnodd angenrheidiol, gan gynnwys amser, i sicrhau y gall aelodau'r pwyllgor wneud y gwaith a neilltuir iddynt o ganlyniad i drafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Trafodir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli.

2.5 Archwilio Iechyd a Diogelwch

Bydd y Cynulliad yn archwilio ei system rheoli iechyd a diogelwch yn gyfnodol.

Dylid hysbysu Cynrychiolwyr Diogelwch yr Undebau Llafur pan drefnir archwiliadau diogelwch a'u gwahodd i gymryd rhan ynddynt.

Bydd holiadur neu restr gyfeirio archwilio iechyd a diogelwch sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei archwilio yn cael ei fabwysiadu. Bydd y rhaglen o archwiliadau diogelwch yn cael ei monitro, a chaiff materion o bwys sy'n codi o'r archwiliadau eu hystyried drwy'r broses adolygu.

Bydd y broses adolygu'n sicrhau bod yr archwiliadau wedi cael eu cynnal yn gywir a'u bod yn cwmpasu'r agweddau addas. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u blaenoriaethu i ffurfio sail i raglen weithredu.

Bydd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn:

Datblygu rhaglen a methodoleg archwilio, gan gynnwys protocolau a rhestrau cyfeirio, ac yn cynnal yr archwiliad yn unol â'r rheini.

Cwblhau adroddiad archwilio ar gyfer pob archwiliad ac yn cynnal archwiliad dilynol o ddiffyg cydymffurfio os yw'n berthnasol.